# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
# Ffurflen hysbysiad i optio allan

**Dyma beth sydd angen i chi ei wybod:**

- Nid yw eich cyflogwr yn cael gofyn i chi optio allan na'ch gorfodi i wneud hynny
- Os gofynnir i chi optio allan, neu os cewch eich gorfodi i wneud hynny fe allwch roi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau **www.thepensionsregulator.gov.uk/cy**
- Yn hytrach nag optio allan yn gyfan gwbl o'r CPLlL, gallwch optio i'r adran 50:50 lle rydych yn talu hanner swm y cyfraniad i gronni hanner gwerth y pensiwn. Os ydych yn dymuno gwneud hyn, llenwch ffurflen i **ymuno â'r adran 50:50**
- Os ydych yn newid eich meddwl, gallwch ddewis optio yn ôl i mewn. Ysgrifennwch at eich cyflogwr os hoffech wneud hyn
- Os ydych yn parhau i optio allan, bydd eich cyflogwr fel arfer yn eich rhoi'n ôl yn y cynllun pensiwn ymhen rhyw tair blynedd
- Os byddwch yn newid eich swydd, bydd eich cyflogwr newydd fel arfer yn eich rhoi yn ôl yn y cynllun pensiwn ar unwaith
- Os oes gennych swydd arall, efallai y bydd eich cyflogwr hefyd yn eich rhoi yn y cynllun pensiwn, nawr neu yn y dyfodol
- Mae'r ffurflen hon yn eich optio allan o'r cynllun pensiwn gyda'r cyflogwr yr ydych yn ei enwi ar y ffurflen hon yn unig
- **Os ydych yn dymuno optio allan ar gyfer mwy nag un swydd, bydd angen i chi lenwi un ffurflen ar gyfer pob swydd yr ydych yn dymuno optio allan ar ei chyfer**
- Chi fel aelod ddylai lenwi adran A o'r ffurflen optio allan hon. Anfonwch y ffurflen hon wedyn at eich cyflogwr fel eu bod yn gallu llenwi adran B

## Adran A: (I'w llenwi gan y Gweithiwr)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | | | | |
| **Rhif YG:** | | | **Dyddiad geni:** | | |
| **Cyfeiriad:** | | | | | |
| | | | **Cod post:** | | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | | **Rhif Ffôn:** | | |
| **Cyflogwr:** | | | **Rhif Cyflog:** | | |
| **Teitl y Swydd:** | | | | | |
| **Dewis Iaith:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) | | | | | |
| **Cymraeg** | ☐ | **Saesneg** | ☐ | **Dwyieithog** | ☐ |
| **Dewis o ran Cyfathrebu:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) **(Dewiswch UN opsiwn yn unig)** | | | | | |
| **Electronig**<br>*Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r Hunanwasanaeth Aelodau i dderbyn gohebiaeth yn electronig: **https://mss.clwydpensionfund.org.uk** | ☐ | **Papur** | ☐ | | |

**Ticiwch un o'r blychau isod:**

| | |
|---|---|
| ☐ | Rwyf wedi bod yn talu cyfraniadau pensiwn i Gronfa Bensiynau Clwyd am lai na thri mis yn y swydd hon. **(Prosesir ad-daliad o'r cyfraniadau hyn gan adran gyflogau eich cyflogwr a bydd yr ad-daliad yn eich cyflog nesaf).** |
| ☐ | Rwyf wedi bod yn talu cyfraniadau pensiwn i Gronfa Bensiynau Clwyd am fwy na thri mis ond llai na dwy flynedd yn y swydd hon ac nid oes gennyf unrhyw fuddion CPLlL mewn unrhyw le arall yng Nghymru na Lloegr. **(Prosesir yr ad-daliad gan Gronfa Bensiynau Clwyd a fydd yn cysylltu â chi unwaith y byddan nhw wedi cael eu hysbysu gan eich cyflogwr eich bod wedi optio allan).** |
| ☐ | Mae gennyf gyfnodau o aelodaeth CPLlL yng Nghronfa Bensiynau Clwyd a chronfeydd CPLlL eraill yng Nghymru/Lloegr a fyddai'n dod i gyfanswm o lai na dwy flynedd o aelodaeth a hoffwn gael ad-daliad o bob un ohonyn nhw. **(Prosesir yr ad-daliad gan y gronfa CPLlL ddiweddaraf i chi fod yn aelod ohoni. Byddant yn cysylltu â chi'n uniongyrchol unwaith y bydd ganddynt gofnod o'ch holl aelodaeth CPLlL).** |
| ☐ | Mae gennyf gyfanswm o dros ddwy flynedd o aelodaeth yn y CPLlL naill ai yng Nghymru neu Lloegr. (Efallai mai dim ond eich aelodaeth gyda Chronfa Bensiynau Clwyd fydd hyn). **(Ni fyddwch yn gymwys i gael ad-daliad o'r cyfraniadau hyn. Bydd eich buddion CPLlL yn cael eu gohirio gan Gronfa Bensiynau Clwyd unwaith y byddwn yn cael ein hysbysu gan eich cyflogwr eich bod wedi optio allan).** |

## Datganiad

- Rwy'n dymuno optio allan o gynilo pensiwn gyda'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)
- Rwy'n deall os wyf yn optio allan y byddaf yn colli'r hawl i gyfraniadau pensiwn gan fy nghyflogwr
- Rwy'n deall os wyf yn optio allan y bydd gennyf o bosibl incwm pensiwn is pan fyddaf yn ymddeol
- Rwy'n deall na fyddaf wedi fy yswirio ar gyfer marw yn y swydd neu ymddeol ar sail afiechyd gydag ychwanegiadau
- Os nad wyf yn gymwys am ad-daliad, rwy'n deall na fydd modd i fy muddion pensiwn yn y CPLlL gael eu talu i mi nes i mi adael fy swydd a chyrraedd oedran pensiynadwy (yr isafswm oedran yw 55 oed ar hyn o bryd)
- Rwy'n deall na fydd modd i mi gael ad-daliad o gyfraniadau os wyf wedi trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i Gronfa Bensiynau Clwyd.

Mae'r datganiad uchod yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Eich llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

**Dychwelwch y ffurflen hon at adran gyflogau eich cyflogwr**

# ADRAN B: (I'w llenwi gan y cyflogwr)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl Swydd y Gweithiwr:** | | **Rhif Cyflog:** | |
| **Cyfeirnod swydd (A, B, C ac ati):** | | **Dyddiad dechrau'r swydd hon:** | |
| **Dyddiad ymuno â'r CPLlL yn y swydd hon:** | | **Dyddiad optio allan o'r CPLlL yn y swydd hon:** | |

**Ticiwch un o'r blychau isod gan ddarparu manylion perthnasol:**

| | |
|---|---|
| ☐ | Rwy'n cadarnhau fod y cyfanswm canlynol wedi'i ad-dalu gan yr adran gyflogau ar gyfer y swydd uchod:<br><br>**Swm a ad-dalwyd:** £ ________________________________ |
| ☐ | Ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu didynnu mewn perthynas â'r swydd uchod |
| ☐ | Mae gan yr aelod dros dri mis o aelodaeth CPLlL ac mae'r ffurflen ymadael yn atodedig |

**Manylion y Cyflogwr:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ffurflen wedi'i llenwi gan:** | | **Swyddog Ardystio:** | |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | | **Dyddiad:** | |

**Dylai cyflogwyr ddychwelyd y ffurflen hon at Gronfa Bensiynau Clwyd ar ôl cwblhau adran B**

**DYCHWELIR FFURFLENNI SYDD HEB EU LLENWI'N IAWN NEU SYDD WEDI'U LLENWI'N ANGHYWIR I'CH ADRAN GYFLOGAU**